Ffordd Henllys,
St. Dials,
Cwmbrân,
Torfaen,
NP44 4HB

Ysgol Gymraeg Cwmbrân

Pennaeth/Headteacher: Miss C N Evans

01633 483383
www.ysgolgymraegcwmbran.co.uk
@ygcwmbran.bsky.social

#DdimYnoColliAllan
#NotInMissOut

23.09.26

Annwyl Riant/Warchodwr

**Datgloi Potensial Eich Plentyn: Pŵer Darllen yn y Cartref**

Yn Ysgol Gymraeg Cwmbrân, rydym yn gweld yn uniongyrchol y gwahaniaeth anhygoel y mae darllen gartref bob dydd yn ei wneud. Er ein bod yn dysgu sgiliau darllen hanfodol bob dydd yn yr ystafell ddosbarth, rhaid atgyfnerthu ac ymarfer y sgiliau hyn yn rheolaidd gartref er mwyn iddynt gael effaith wirioneddol. Mae darllen gyda'ch plentyn am gyn lleied â 10 i 15 munud y dydd yn atgyfnerthu eu dysgu, yn sicrhau eu llwyddiant addysgol, ac yn gwella eu rhagolygon.

Pan fydd plant yn darllen yn rheolaidd gartref, maent yn datblygu geirfa gyfoethog, yn canolbwyntio'n well ac yn dangos mwy o empathi. Mae cyfnewid amser sgrîn am lyfr cyn mynd i'r gwely nid yn unig yn gwella ansawdd eu cwsg ac yn lleihau pryder, ond hefyd yn datblygu'r sgiliau meddwl beirniadol sydd eu hangen ar blant i ffynnu mewn byd sy'n dod yn fwyfwy digidol.

Pan fydd darllen yn cael ei anwybyddu, mae'r canlyniadau'n sylweddol. Mae plant sydd ddim yn darllen yn rheolaidd yn cwympo tu ôl ar draws y cwricwlwm cyfan – gan gynnwys mathemateg a gwyddoniaeth – wrth i'w gallu i brosesu gwybodaeth gymhleth ddioddef. Dros amser, mae'r bwlch dysgu hwn yn ehangu, gan gyfyngu'n uniongyrchol ar eu cyflawniad academaidd, eu hunanhyder a'u cyfleoedd gyrfa hirdymor.

**Chi yw model rôl bwysicaf eich plentyn, ac rydym yma i'ch cefnogi.**

Er mwyn eich helpu i feithrin arferion darllen hawdd a phleserus gartref, rydym yn cynnal sesiynau pwrpasol i rieni/gwarchodwyr. Byddwn yn rhannu strategaethau syml, adnoddau, a chyngor ar sut i wneud darllen yn rhan bleserus o'ch trefn ddyddiol. Bydd ein disgyblion iau yn perfformio a bydd lluniaeth ysgafn ar gael.

Gweler y poster am fanylion digwyddiad i rieni/gwarchodwyr. Gofynnwn yn garedig i chi wneud pob ymdrech i fynychu ar y 12fed o Hydref.

Yn gywir

C N Evans

C N Evans
Pennaeth